Llywodraeth Cymru – Dyfodol Cynaliadwy – Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol

Asesiad o'r risg o ddefnyddio brechlynnau anweithredol i ymladd teipiau penodol o feirws y Tafod Glas yng Nghymru

Cyflwyniad

Ym mis Mawrth 2012, diwygiwyd Cyfarwyddeb Ewropeaidd 2000/75/EC, sef y Gyfarwyddeb sy'n ymwneud â'r rheolau swyddogol ynghylch darganfod a rheoli feirws y Tafod Glas (BTV). Mae'r diwygiad yn caniatáu'r defnydd o frechlynnau y tu allan i ardal dan gyfyngiadau BTV. Cyn hyn, dim ond o fewn ardal dan gyfyngiadau y caniatawyd defnyddio brechlynnau (brechlynnau anweithredol a brechlynnau byw wedi'u haddasu). 'Roedd yn ofynnol i ardaloedd oedd yn ennill statws diglefyd wahardd y defnydd o frechlynnau. O'r herwydd, 'roedd brechlynnau BTV wedi eu gwahardd yn y DU ar ôl y cyhoeddiad ei bod yn ardal ddiglefyd o ran BTV-8 ym mis Gorffennaf 2011. Defnyddiwyd brechlynnau yng Nghymru yn 2008 a 2009, yn y De-ddwyrain yn bennaf. Dyma'r ardal gyntaf yng Nghymru i dderbyn y brechlyn.

Mae'r diwygiad gan erthygl 5 o Gyfarwyddeb 012/5/EU i Gyfarwyddeb 2000/75 EC yn mynnu y caiff Aelod-wladwriaeth ganiatáu'r defnydd o frechlyn os yw'r canlynol yn wir: "such [a] decision is based on the result of a specific risk assessment carried out by the competent authority".

Cwestiynau'n ymwneud â risg:

1. A fydd caniatáu'r defnydd o frechlynnau anweithredol yn erbyn feirws y Tafod Glas yn creu risg o glefyd mewn ardaloedd lle nad oes cyfyngiadau?

Dengys bod brechlynnau anweithredol (wedi'u lladd) yn cynnig imiwnedd priodol yn erbyn teipiau penodedig o BTV. Nid oes adweithiau drwg o bwys i'r defnydd o'r brechlyn yn erbyn BTV-8 er iddo gael ei gyflwyno yn y DU yn 2008. Yn gyffredinol, mae gofyn cael ailfrechiad blynyddol i sicrhau bod imiwnedd priodol yn cael ei gynnal. Ni all feirws sydd wedi ei ladd achosi clefyd y Tafod Glas

Ar y llaw arall, tra bo brechlynnau byw yn tueddu i roi imiwnedd am gyfnod hirach (gallai fod gydol oes), gallent gario'r risg o achosi clefyd mewn rhai achosion. Byddai'n amhriodol i'w defnyddio mewn ardaloedd lle nad oes clefyd yn digwydd yn naturiol.

2. A fydd defnyddio'r brechlyn yn amharu ar ddarganfod achosion newydd o glefyd y Tafod Glas?

Cynhyrchir y brechlynnau anweithredol o feirws sydd wedi ei ladd. Ni ellir creu clefyd drwy eu defnyddio yn y modd uchod. O ganlyniad bydd arwyddion clinigol sy'n cyfateb i'r clefyd BTV yn dangos bod da byw wedi dal y feirws.

Mae'r Tafod Glas yn glefyd hysbysadwy. Dylid ymchwilio i arwyddion clinigol sy'n awgrym o'r afiechyd.

Byddai'r prawf safonol i ganfod afiechyd cyfredol gyda BTV yn cael ei ddefnyddio i bennu os yw'r arwyddion clinigol yno oherwydd BTV (y prawf PCR). Nid yw anifeiliaid sydd wedi'u brechu â'r feirws sydd wedi ei ladd yn rhoi canlyniad positif i'r math hwn o brawf.

Mae Llywodraeth Cymru a gweinyddiaethau eraill y DU wedi cynnal asesiad risg wedi ei seilio ar gyngor gan Grŵp o Arbenigwyr Cenedlaethol ar y Tafod Glas, grŵp craidd y Tafod Glas a'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Labordai Milfeddygol (AHVLA). Ar hyn o bryd, mae llawer o frechlynnau anweithredol trwyddedig ar gyfer y Tafod Glas, sy'n ymwneud â seroteipiau 1, 2, 4, neu 8 (brechlynnau unfalent ac amlfalent) Mae hyn wedi ei awdurdodi ar lefel Ewropeaidd (drwy'r Asiantaeth Feddyginiaethau Ewropeaidd).

Argymhelliad

Dylid caniatáu ddefnyddio'r brechlynnau yng Nghymru. Ym mis Mawrth 2011, argymhellwyd gan Grŵp o Arbenigwyr Cenedlaethol y dylid caniatáu defnyddio'r brechlynnau yn y DU.

Bydd y brechu'n wirfoddol a dylai'r penderfyniad fod rhwng y ffermwr a milfeddyg preifat. Dylid ystyried yr adeg o'r flwyddyn a'r angen am frechlynnau atgyfnerthu yn ogystal â'r risg o'u cyflwyno. Bydd Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Labordai Milfeddygol (AHVLA) yn parhau i fonitro'r sefyllfa ryngwladol gan ddiweddaru'r asesiadau risg ar: http://www.defra.gov.uk/animal-diseases/er mwyn helpu'r unigolyn i wneud penderfyniad. Ar hyn o bryd, nid oes achosion o BTV yng Ngogledd Ewrop.



Ffynhonnell:
http://ec.europa.eu/food/animal/diseases/controlmeasures/Bluetongue_en.htm

Bydd yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Labordai Milfeddygol (AHVLA) yn parhau i fonitro'r bygythiad rhyngwladol, gynnal profion ar ôl mewnforio sy'n seiliedig ar risg, yn ogystal â goruchwylio. Mae'r adroddiadau cynnar gan y diwydiant o afiechyd sy'n cyfateb i arwyddion o'r Tafod Glas, waeth beth fo'r hanes brechu, neu'r risg ymddangosiadol o achos o BTV, yn parhau'n bwysig.

Casgliad

Er mai isel iawn yw'r risg presennol o achos o glefyd y Tafod Glas, byddwn, drwy Drwydded Gyffredinol, yn caniatáu defnyddio brechlynnau anweithredol yng Nghymru ar gyfer yr holl seroteipiau cyfredol. Bydd hyn yn galluogi ceidwaid da byw i warchod yr anifeiliaid cyn i unrhyw un o'r teipiau hyn yn ail ymddangos yng Nghymru neu weddill y DU.

Bydd sefyllfa clefyd y Tafod glas yn parhau i gael ei fonitro. Bydd gwybodaeth, ee asesiadau monitro clefyd rhyngwladol yn cael ei rhoi ar gael ar wefan DEFRA: <www.defra.gov.uk/animal-diseases/.%20%20>

Awst 2012